Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Cynllun cyhoeddi Ofcom

Deddf Rhyddid Gwybodaeth

Cynllun cyhoeddi Ofcom

Adran A: Cyflwyniad

Beth yw Ofcom?

Ofcom yw'r rheoleiddiwr ar gyfer diwydiannau cyfathrebu'r DU, gyda chyfrifoldebau ar hyd y gwasanaethau teledu, radio, telathrebu a chyfathrebiadau diwifr.

Mae Ofcom yn bodoli i hyrwyddo buddiannau dinasyddion-defnyddwyr wrth i'r diwydiannau cyfathrebu droedio i'r oes ddigidol.

Er mwyn gwneud hyn, bydd Ofcom:

- yn cydbwyso hyrwyddo dewis a chystadleuaeth gyda'r dyletswydd i feithrin lluosogrwydd, dinasyddiaeth ddeallus, amddiffyn gwylwyr, gwrandawyr a chwsmeriaid a hyrwyddo amrywiaeth diwylliannol;
- gwasanaethu buddiannau'r dinasyddion-defnyddwyr wrth i'r diwydiant cyfathrebu droedio i'r oes ddigidol;
- cefnogi'r angen am flaengarwyr, crëwyr a buddsoddwyr i ffynnu mewn marchnadoedd a gaiff eu cymell gan gystadleuaeth lawn a theg rhwng pob darparwr; ac
- annog esblygiad cyfryngau electronig a rhwydweithiau cyfathrebu er lles pawb sy'n byw yn y Deyrnas Unedig.

Mae Ofcom yn gorfforaeth statudol. Mae'n ofynnol iddo adrodd yn flynyddol i'r Senedd. Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn destun arolygiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ac mae Ofcom yn atebol i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am briodoldeb a gwerth am arian. Mae'r Ddeddf Cyfathrebiadau hefyd yn mynnu bod Adroddiad Blynyddol Ofcom yn cael ei osod gerbron y Senedd.

Mae Ofcom wedi'i strwythuro fel mai prif gorff gwneud penderfyniadau Ofcom yw ei Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn Fwrdd unedol gyda chymysgedd o aelodau gweithredol (gan gynnwys y Prif Weithredwr) ac anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd); fe'i sefydlwyd yn fwriadol yn y modd hwn i efelychu byrddau'r cwmnïau y mae Ofcom yn eu rheoli. Nid oes gan Ofcom Gyfarwyddwr Cyffredinol gyda chyfrifoldeb unigol am wneud penderfyniadau neu Fwrdd sy'n cynnwys aelodau rhan-amser yn llwyr neu gorff o gomisiynwyr (sef y modelau yn y rheoleiddwyr y mae Ofcom wedi'u disodli).

Mae gan Ofcom nifer o bwyllgorau a chyrff ymgynghorol sydd naill ai wedi cael pwerau wedi'u dirprwyo gan brif Fwrdd Ofcom neu sy'n cynnig cyngor i brif Fwrdd Ofcom. Mae'r pwyllgorau a'r cyrff ymgynghorol hyn yn cynnwys y Bwrdd Cynnwys, y Panel Defnyddwyr, Pwyllgorau Ymgynghorol y Gwledydd a'r Rhanbarthau a'r Pwyllgor Ymgynghorol Pobl Hŷn a Phobl Anabl.

Adran B: Amlinelliad o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y 'Ddeddf') yn sefydlu hawl mynediad cyffredinol i bob math o wybodaeth wedi'i chofnodi a ddelir gan awdurdodau cyhoeddus. Mae'n nodi esemptiadau o'r hawl honno ac yn gosod nifer o rwymedigaethau ar awdurdodau cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn berthnasol i Ofcom gan fod Ofcom yn awdurdod cyhoeddus.

Mae gan unigolion eisoes yr hawl i gael mynediad i wybodaeth amdanynt hwy eu hunain o dan y Ddeddf Diogelu Data. O fis Ionawr 2005 ymlaen, bydd y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn ymestyn yr hawl hon i fynediad i bob math o wybodaeth. Gorfodir y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae gwybodaeth fanwl am y Ddeddf ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: www.informationcommissioner.gov.uk

neu drwy ysgrifennu at:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

E-bost: mail@ico.gsi.gov.uk

Rhif ffôn ymholiadau cyffredinol: 01625 545 700

Ni fydd angen i ymgeiswyr nodi'r Ddeddf wrth wneud cais am wybodaeth. Fodd bynnag, rhaid i'r cais fod ar ffurf barhaol, er enghraifft ar bapur neu ar yr e-bost.

Yn gyffredinol, rhaid darparu ymateb ymhen 20 diwrnod gwaith. Hwyrach y bydd awdurdod cyhoeddus yn gofyn am wybodaeth bellach y mae ei hangen yn rhesymol er mwyn adnabod a lleoli'r wybodaeth a ofynnir amdani. Os oes angen codi ffi, gallai'r cyfnod o 20 diwrnod gwaith gael ei ymestyn i hyd at dri mis nes i'r ffi gael ei thalu.

Adran C: Sut mae cynllun cyhoeddi Ofcom yn gweithio

Yn unol ag Adran 19 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a chanllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth, mae Ofcom wedi cyhoeddi'r cynllun cyhoeddi hwn (y'cynllun') fel ei bod hi'n glir pa wybodaeth sydd ar gael yn hawdd heb yr angen i unigolion wneud cais penodol. Mae'r cynllun yn nodi:

- y dosbarthiadau o wybodaeth a gyhoeddir gennym;
- y ffordd y caiff ei chyhoeddi; a
- ble mae'r wybodaeth ar gael yn rhad ac am ddim a lle codir ffioedd.

Byddwn yn llunio ein cynllun yn Saesneg ond byddwn hefyd yn ei ddarparu yn y Gymraeg, mewn print mawr i bobl gyda nam ar y golwg, neu ar ffurfiau sy'n addas ar gyfer pobl gyda dyslecsia. Gallwn hefyd ei ddarparu mewn Braille neu ar dâp sain ar gais.

Cymeradwyo ac adolygu

Cymeradwywyd y cynllun gan y Comisiynydd Gwybodaeth am gyfnod o bedair blynedd nes 29 Chwefror 2008. Felly, bydd y cynllun yn cael ei adolygu'n ffurfiol ym mis Chwefror 2008. Caiff ein gwefan ei diweddaru'n ddyddiol a byddwn yn adolygu'r cynllun yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn ddiweddar ac yn darparu cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl.

Ffïoedd am wybodaeth

Mae'r holl wybodaeth a ddisgrifir yn y cynllun hwn ar gael yn rhad ac am ddim ar wefan Ofcom yn www.ofcom.org.uk.

Er nad oes ffi ar gyfer y rhan fwyaf o'r copïau papur o wybodaeth, mewn rhai achosion, gallai gwybodaeth sydd ar gael am ddim ar y wefan fod ar ffurf cyhoeddiad ar bapur y codir ffi amdano.

Gellir codi ffi hefyd os gofynnir am nifer o gopïau neu niferoedd mawr o ddogfennau. Hwyrach y gallai ceisiadau am wybodaeth y mae angen chwilio trwy'r archif amdanynt hefyd fod yn destun ffi. Bydd ffïoedd yn seiliedig ar gostau chwilio, llungopïo a phostio. Pan fyddwch yn gwneud cais am wybodaeth, rhoddir gwybod am unrhyw ffi i chi. Telir ffioedd ymlaen llaw, gyda siec.

Hawlfraint

Mae'r holl ddeunydd yng nghynllun Ofcom ar y wefan yn eiddo i Ofcom neu wedi'i drwyddedu i Ofcom ac fe'i amddiffynnir gan hawlfraint, nodau masnach neu unrhyw hawliau a deddfau perchenogol eraill.

Oni nodir fel deunydd sy'n eiddo i'r Goron neu fel arall, gellir atgynhyrchu'r deunydd yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyhyd ag y gaiff ei atgynhyrchu'n gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Ofcom gan nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiad am wybodaeth hawlfraint sydd heb ei chyhoeddi ar wefan Ofcom at contact@ofcom.org.uk dros yr e-bost neu drwy llythyr i Ofcom, 2a Southwark Bridge Road, London SE1 9HA.

O ran defnyddio deunydd sy'n eiddo i'r Goron, cyfeiriwch at HMSO yn www.hmso.gov.uk neu cysylltwch â nhw dros y ffôn ar 01603 621 000.

Cael gwybodaeth

Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth a ddisgrifir yn y Cynllun hwn ar gael ar wefan Ofcom yn www.ofcom.org.uk, neu mae ar gael fel copïau papur. Os nad oes gennych fynediad i'n gwefan, yn methu dod o hyd i wybodaeth neu'n dymuno cael copïau papur, cysylltwch â ni drwy lythyr, ffacs neu e-bost.

Os oes angen cymorth neu gyngor arnoch wrth gael mynediad i wybodaeth, gallwch ffonio Canolfan Gyswllt Ofcom ar

Ffôn: 0845 456 3000 neu 020 7981 3040
Ffôn testun: 0845 456 3003
Llinell Gymraeg: 020 7981 3042

Cyfeiriwch eich llythyrau i:
Information Requests
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

Ffacs: ceisiadau am wybodaeth ar 020 7981 3333

E-bost: information.requests@ofcom.org.uk

Ysgrifennydd y Gorfforaeth sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y Cynllun, gellir cysylltu ag ef yn:

The Secretary to the Corporation
The Office of Communications
2A, Riverside House
Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

Ffôn: 020 7981 3601
Ffacs: 020 7981 3333
E-bost: corporation.secretary@ofcom.org.uk

Cyflenwir gwybodaeth a ofynnir amdani gan Ofcom cyn gynted ag sy'n bosibl ac yn ymarferol.

Cwynion ac ymholiadau am gynllun Ofcom

Os oes gennych gŵyn neu ymholiad am y cynllun, dylech

Ysgrifennu at Ysgrifennydd y Gorfforaeth

Neu

Ffonio Canolfan Gyswllt Ofcom

Adran D: Dosbarthiadau o wybodaeth y mae Ofcom yn cyhoeddi

Wrth baratoi'r cynllun, mae Ofcom wedi ystyried yr amrywiol ddosbarthiadau o wybodaeth sydd ar gael ganddo, a fydd yn parhau i fod ar gael ganddo a gwybodaeth a fydd ar gael maes o law wrth i Ofcom ddatblygu ei bolisïau a'i strategaethau. Mae'r holl wybodaeth isod ar gael neu'n mynd i fod ar gael ar wefan Ofcom. Adolygir y categorïau hyn yn rheolaidd a bydd y cynllun hwn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd wrth i Ofcom ddatblygu ei ymagwedd rheoliadol.

Gwybodaeth Gyffredinol am Ofcom

Mae'n cynnwys:

- Adroddiadau Blynyddol, Cynlluniau Blynyddol a chyllidebau; bydd Ofcom yn cyhoeddi Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol bob blwyddyn ynghyd â Chynllun Blynyddol a fydd yn nodi'r hyn y mae Ofcom wedi'i gyflawni a beth mae'n bwriadu ei wneud.
- Manylion Aelodau'r Bwrdd, y Bwrdd Cynnwys, y Panel Defnyddwyr a'r holl Bwyllgorau Ymgynghorol, ynghyd â manylion cylchoedd gorchwyl pob Bwrdd/Pwyllgor ac agendâu ar gyfer cyfarfodydd cyrff felly a chofnodion eu cyfarfodydd.
- Y Cod Ymddygiad sy'n berthnasol i'r Bwrdd a chofrestr buddiannau datgeladwy'r Bwrdd.
- Bwriad, egwyddorion rheoliadol, dyletswyddau statudol a gwerthoedd Ofcom a dadansoddiad o sut mae Ofcom yn gweithio.
- Sut mae Ofcom yn ymrwymo â'r Senedd a Gweinidogion trwy ohebiaeth a phresenoldeb ym Mhwyllgorau'r Senedd, sut mae'n codi arian i dalu am ei gostau gweithredu a'r trefniadau rhwng Ofcom a rheoleiddwyr eraill.
- Datganiad diogelu data Ofcom a manylion ynghylch sut i gwyno am Ofcom.
- Manylion swyddfeydd Ofcom ledled Deyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.
- Areithiau a wneir gan aelodau Bwrdd Ofcom ac uwch weithredwyr eraill Ofcom.
- Calendr cyhoeddi Ofcom ar gyfer pob blwyddyn ariannol.
- Swyddi yn Ofcom, manylion tendrau a threfniadau ar gyfer caffael.
- Pob datganiad newyddion a ryddheir gan Ofcom.
- Manylion rheoleiddwyr blaenorol yn y sector cyfathrebiadau.

Codau a pholisïau

Mae'n cynnwys:

- pob cod a pholisi sy'n ymwneud â darlledu ar y radio a'r teledu gan gynnwys codau rhaglenni, hysbysebu a noddi;
- arweiniad Ofcom ar gyfer prawf diddordeb y cyhoedd ar gyfer cyfuno cwmnïau'r cyfryngau;
- canllawiau ar gyfer delio â safonau a thegwch a chwynion ynghylch preifatrwydd;
- Gweithdrefn amlinellol ar gyfer cosbau statudol mewn achosion cynnwys;

- pob polisi'n ymwneud ag awdurdodi trwyddedau radiogyfathrebu gan gynnwys rhai awyrennol, ar y môr, radio amatur band dinasyddion a radio busnesau;
- canllawiau ymyrryd a pholisïau gorfodaeth ar gyfer radiogyfathrebu;
- pob cod a pholisi'n ymwneud â thelathrebu; a
- manylion canllawiau cosbi Ofcom.

Bwletinau cystadleuaeth a chwyno

Mae'n cynnwys:

- Bwletinau Cwynion am Raglenni;
- Bwletinau Cwynion am Hysbysebion;
- Barnau'r Pwyllgor Cosbau o ran Cynnwys;
- Bwletinau Cystadleuaeth yn cynnwys achosion agored ac achosion sydd wedi dod i ben; a
- Chanllawiau ar gyfer delio â chwynion yn ymwneud â chystadleuaeth.

Ymgynghoriadau

Mae'n cynnwys:

- sut mae Ofcom yn ymgynghori;
- manylion pob ymgynghoriad presennol Ofcom (gan gynnwys adolygiad strategol) neu ymgynghoriadau sydd wedi dod i ben; ac
- ymatebion i ymgynghoriadau wedi'u cyhoeddi.

Ymchwil

Mae'n cynnwys:

- yr holl ymchwil defnyddwyr a chynulleidfaoedd i delathrebu, radio a theledu;
- yr holl ymchwil ar ddiwydiant, y farchnad a thechnoleg yn y sector cyfathrebu; a
- holl adroddiadau arbenigol Ofcom wedi'u cyhoeddi.

Gwybodaeth i ddefnyddwyr

Mae'n cynnwys:

- arweiniad i ddefnyddwyr ar bob agwedd ar wasanaethau radio, teledu, telathrebu a diwifr; ac
- mae Ofcom yn darparu cysylltiadau â gwefan y Panel Defnyddwyr a'r memorandwm o ddealltwriaeth rhwng Ofcom a'r Panel Defnyddwyr

Grwpiau diwydiant a gwybodaeth

Mae'n cynnwys:

- gwybodaeth sy'n ddefnyddiol i bob rhan o'r sector cyfathrebu;
- manylion Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ac unrhyw ddyfarnwyr eraill a benodir gan Ofcom; a
- manylion unrhyw drefniadau rheoleiddio ar y cyd.

Trwyddedu a rhifo

Mae'n cynnwys:

- pob trwydded teledu a gyhoeddwyd ynghyd â nodiadau arweiniad ar y broses ymgeisio a manylion yr holl geisiadau;
- manylion y gyfundrefn awdurdodi gyffredinol ar gyfer trwyddedau telathrebu a manylion cyswllt ar gyfer trwyddedau telathrebu;
- pob trwydded darlledu radio a gyhoeddwyd ynghyd â nodiadau arweiniad ar y broses ymgeisio a manylion yr holl geisiadau;
- y broses ar gyfer gwneud cais ar gyfer trwydded radiogyfathrebu; a
- manylion rhifau ffôn y DU a'r broses ar gyfer gwneud cais am rifau ffôn gan y Cynllun Rhifo Cenedlaethol ynghyd â gwybodaeth am y polisi rhifo sy'n cynnwys hygludedd rhifau.

Adran E: Gwybodaeth nad yw ar gael ar gais

Fel rheoleiddiwr, mae Ofcom yn anelu at fod mor dryloyw â phosibl ac yn rhagweithiol wrth sicrhau bod cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl ar gael ganddo. Fodd bynnag, mae Ofcom yn gorfod cydbwyso tryloywder gyda chyfrinachedd gan fod Ofcom yn cael llawer o wybodaeth nad yw'n briodol i'w chyhoeddi o bosibl.

O dan y Ddeddf, mae gan Ofcom hawl i ddibynnu ar esemptiadau penodol o ran darparu gwybodaeth lle mae'r wybodaeth hynny, er enghraifft, yn sensitif yn fasnachol, yn ymyriad amgen ar breifatrwydd, yn gyfrinachol neu heb fod er diddordeb y cyhoedd a byddai ei datgelu yn rhwystro gallu Ofcom i ddiwallu ei ddyletswyddau rheoliadol. Mewn amgylchiadau felly, ni fydd Ofcom yn caniatáu i'r fath wybodaeth fod ar gael.

Mae Adran 22 y Ddeddf hefyd yn caniatáu Ofcom i wrthod rhyddhau gwybodaeth a ofynnir amdani os bwriedir cyhoeddi'r wybodaeth yn ddiweddarach.

Adran F: Cwynion

Yn yr achos cyntaf, dylai unigolyn gwyno i Ofcom am y ffordd y deliwyd â chais am wybodaeth. Dylid cyfeirio hwn at:

The Secretary to the Corporation
The Office of Communications
2A, Riverside House
Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

Ffôn: 020 7981 3601
Ffacs: 020 7981 3333
E-bost: corporation.secretary@ofcom.org.uk

Os yw'r unigolyn yn parhau i fod yn anfodlon, yna dylid anfon y gŵyn ymlaen yn ysgrifenedig at y Comisiynydd Gwybodaeth trwy ysgrifennu at:

FOI Compliance Team (complaints)
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow

Cheshire SK9 5AF